

Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Diweddariad Haf 2019

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Newydd y BGC

Rydym wedi penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Newydd. Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru yng Ngogledd Orllewin

Cymru yw ein Cadeirydd newydd a bydd yn cael ei chefnogi gan Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych fel Is-gadeirydd.

Llawer o ddiolch i Bethan Jones ac Iwan Davies, cyn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd am eu harweinyddiaeth yn ystod cyfnod sefydlu ein BGC ni.

Ymweliadau Safle

Yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf aeth yr aelodau allan i weld gwaith cydweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar eu prosiect Uwch Conwy. Dysgom am y mentrau sydd wedi eu rhoi ar waith yn Nyffryn Conwy i reoli'r perygl o lifogydd. Aethom i [Fferm Carrog](#) yng Nghwm Penmachno i ddysgu sut y mae prosiect Uwch Conwy yn ailgysylltu'r afon gyda'i gorlifdir naturiol er mwyn helpu i arafu'r llif a denu mwy o fywyd gwylt. Fe wnaethom hefyd ddysgu mwy am raglen coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ein stop olaf oedd i weld y gwaith sy'n digwydd yn y [Migneint](#) i adfer y gorgorsydd gan leddfu llifogydd i lawr yr afon a gwella'r stôr carbon. Diolch i dîm CNC a'r Ymddiriedolaeth

Genedlaethol am roi o'u hamser i ddysgu mwy i ni am eu gwaith.

Adroddiad Blynyddol 2018/19

Cymeradwywyd ein hadroddiad blynyddol cyntaf yng nghyfarfod yr haf. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni hyd yma, ein cynlluniau wrth symud ymlaen ac ymhle y mae angen i ni wella yn y dyfodol.

Mae copi o'ch adroddiad blynyddol ar gael wefan [PSB Conwy a Sir Ddinbych](#).

Document title

Pobl: Lles Meddwl Da

Mae'r flaenoriaeth hon yn awr yn cael ei harwain gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r partneriaid ar hyn o bryd yn trosglwyddo'r gwaith hwn iddynt ac yn trafod y ffordd orau o symud y gwaith yn ei flaen.

Lle: Gwytnwch Amgylcheddol

Fe wnaethom gymeradwyo'r Addewid Cymunedau Gwyrdd yn ein cyfarfod diwethaf. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun ymgysylltu ac rydym yn anelu at lansio'r cynllun yn yr hydref.

Mae gwaith ar y datganiad polisi wedi symud yn ei flaen. Ein bwriad yw gwneud ymrwymiad trosfwaol i roi sylw i garbon ac ynni. Rydym yn siarad gyda'n sefydliadau unigol i gael mwy o eglurder ar y cyfeiriad cyn rhoi cymeradwyaeth terfynol a gweithredu hyn yn ddiweddarach eleni.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad rhwydweithio amgylcheddol ar 18 Medi 2019 (9.30am - 1pm) cysylltwch â ni i wybod mwy ac i archebu eich lle!

Cymuned: Grymuso'r Gymuned

Yn y cyfarfod diwethaf fe wnaethom gytuno y bydd elfen ragnodi cymunedol y flaenoriaeth yn canolbwyntio ar reoli pwysau. Rydym yn bwriadu alinio ein gweithgareddau i gefnogi blaenoriaeth ffordd iach o fyw BIPBC sydd yn datblygu cynllun rheoli pwysau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym hefyd yn bwriadu canolbwyntio hyn ar ardaloedd peilot yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Ein cam nesaf fydd sefydlu tîm amlasiantaeth i gwblhau'r prosiect.

Mae [DVSC](#) yn arwain ar elfen Dementia'r flaenoriaeth drwy eu [Rhaglen Ymwybyddiaeth o Dementia a Arweinir gan y Gymuned](#). Rydym yn edrych ar sut y gallwn ni fel partneriaid fod yn rhan o hyn.

Cyfarfodydd BGC Conwy a Sir Ddinbych

Document title

Mae cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd, dyma ddyddiadau ac amseroedd ein cyfarfodydd ar gyfer 2019/20 –

- 23 Medi 2019 – 2pm i 5pm (Tŷ Russell, Rhyl)
- 9 Rhagfyr 2019 – 2pm i 5pm (Coed Pella, Bae Colwyn)
- 16 Mawrth 2020 – 2pm i 5pm (Lleoliad i'w gadarnhau)

Mae agenda, adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan papurau bwyllgor [PSB Conwy a Sir Ddinbych](#).

Cysylltu â ni

Am mwy wybodaeth am the BGC Conwy a Sir Ddinbych, ewch i www.conwyanddenbighshirepsb.org.uk, e-bôst sgwrsysir@conwy.gov.uk neu ffonio 01492 574059.